

## Helpwch fi i farw

(penderfyniad / dod i benderfyniad / gweld cyfle)

Bob bore byddai Joni Eareckson yn marchogaeth ei hoff geffyl. Byddai wrth ei bodd yn mynd i fyny i'r mynydd-dir o gwmpas ei chartref. Ar ôl cyrraedd y copa byddai'n gadael i'r ceffyl bori o gwmpas tra byddai hi'n eistedd ar ei hoff graig yn edrych ar yr olygfa oddi tani. Yna, ar ôl ysbaid o synfyfrio, i ffwrdd â hi ar gefn y ceffyl yn ôl adref. Yna, y pnawniau, yn ystod y gwyliau, byddai'n mynd gyda'i ffrindiau i nofio a deifio. Un pnawn braf, poeth cerddodd gyda'i ffrindiau i fyny at y llyn. Byddai Joni a'i ffrindiau, yn gwirioni ar nofio yn nyfroedd oer y llyn. Roedd dyfroedd y llyn yn dipyn oerach na dyfroedd hallt y môr. Ac ar ddiwrnod poeth roedd nofio yn y llyn yn fendigedig.

"Tyrd," meddai dwy o'i ffrindiau, "beth am i ni fynd i ochr y dibyn i ni gael deifio i mewn? Beth am i ni fynd at y graig acw?" meddai un ohonyn nhw. "Dyda ni erioed wedi deifio o'r ochr acw." I ffwrdd â'r tair gan chwerthin a gwthio'i gilydd ar y ffordd i ben y graig. "Y fi sy'n mynd gynta," meddai Joni. Hi oedd y gyntaf i gyrraedd copa'r graig. Arhosodd am funud er mwyn rhoi cyfle i'r genethod eraill gyrraedd.

"Reit ta," gwaeddodd Joni, "dwi'n mynd." Edrychodd y ddwy arall arni'n plymio i'r dyfroedd.

"Wyt ti'n iawn?" gwaeddodd un o'r genethod arni.

Ond doedd dim ateb o gwbl.

"Ydi hi'n iawn?" gofynnodd i'w ffrind.

Gwelsant Joni'n arnofio ar wyneb y dŵr. Rhedodd y ddwy nerth eu traed i lawr y dibyn tua glan y llyn. Roedd Joni'n llonydd ar wyneb y dŵr a'i hwyneb i waered. Llusgodd y ddwy hi tua'r lan. Roedd hi'n ddu-las.

"Wyt ti'n iawn, Joni?" gofynnodd un o'r genethod. Nid ateb ond ysgwyd ei phen a wnaeth Joni. Erbyn hyn roedd gweddill ei ffrindiau wedi cyrraedd.

"Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth ar frys," meddai un o'r bechgyn. Aeth dau ohonyn nhw i ffonio am ambiwlans. Arhosodd y gweddill efo Joni i geisio ei chysuro.

Fel roedd y bechgyn yn dychwelyd o'r caban ffonio roedd seiren yr ambiwlans i'w chlywed yn y pellter. Cyn pen dim roedd y dynion ambiwlans wedi cyrraedd glan y llyn.

“Mae arna i ofn,” meddai un ohonyn nhw, “ei bod hi wedi torri ei gwddw ac mae’n siŵr y bydd wedi ei pharlysu am ei hoes.”

Cofleidiai’r bechgyn a’r merched ei gilydd a’r dagrau’n llifo. Joni y ferch dalentog wedi ei pharlysu am ei hoes?

Bu Joni yn yr ysbyty am wythnosau. Doedd hi ddim yn gallu defnyddio ei breichiau na’i choesau. Yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty dysgodd beintio gyda’r brwsh yn ei cheg. O dipyn i beth dysgodd sgrifennu, canu, gyrru car a gwnaeth y cwbl heb ddefnyddio ei breichiau na’i choesau! Tipyn o gamp.

Ond byddai cyfnodau pan fyddai’n teimlo’n drist a digalon iawn. Pan aeth un o’i ffrindiau i’w gweld un diwrnod roedd hi mewn cyflwr drwg iawn.

“Dydw i ddim eisiau byw. Wnei di fy helpu i roi terfyn ar fy mywyd am byth? Gwna rywbeth i’m helpu... mi lynca i’r holl dabledi yna ar unwaith. Rydw i’n gas efo Duw...” Bob tro byddai ei ffrindiau yn ymweld â hi yr un oedd y gân, “Helpwch fi i farw.”

Ond, un diwrnod, pan ddywedwyd wrthi ei bod yn cael gadael yr ysbyty ymwrolodd a dechreuodd arni i helpu pobl efo anabledd. Priododd â Ken Tade, athro a roddodd y gorau i’w waith i helpu Joni yn ei hymgyrch i helpu pobl anabl ar hyd a lled y byd.



Adnod: “Yn ddiorffwys eich ymroddiad, yn frwd eich ysbryd, gwasanaethwch yr Arglwydd.” Rhufeiniaid 12:11



Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am bobl fel Joni sy’n barod i anghofio’u hunain er mwyn byw i bobl eraill. Amen.



Trafod:

- Pam yr oedd Joni’n teimlo mor drist a digalon?
- Beth oedd y trobwynt yn ei bywyd?